**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 5 Mawrth 2014.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad sain o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, K P Hughes, Nicola Roberts a Alwyn Rowlands |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Ann Griffith a Lewis Davies |
| **Hefyd yn bresennol:** | Y Cynghorydd J.Arwel Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio ac Aelod Lleol ar gyfer cais 12.1); Cynghorydd R.Ll.Jones (Aelod Lleol ar gyfer cais 12.1); Cynghorydd R.G.Parry, OBE (Aelod Lleol ar gyfer cais 7.1); Cynhgorydd Richard Dew (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff) |

1:00 o'r gloch y prynhawn tan 1:45 y prynhawn

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION CYFARFOD 5 CHWEFROR** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion o'r ymweliad safle a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim Siarad Cyhoeddus yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | 6.1 37C187 – Cais amlinellol i godi annedd gyda rhai materion wedi eu cadw yn ôl ynghyd ag addasu'r fynedfa bresennol ar dir ger Bryn Garth, Brynsiencyn<br><br>**Dywedwyd bod y cais wedi cael ei dynnu'n ôl a nodwyd y wybodaeth honno.**<br><br>6.2 41C125B/EIAL/RE – Cais llawn ar gyfer codi tri o dyrbinau gwynt 800kw-900kw hyd at 55m o uchder, rotor 52m ar draws a hyd at 81m i bwynt uchaf y llafn, gwella'r fynedfa bresennol i'r A5025 ynghyd â chodi 3 o unedau storio offer yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy.<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a'r rhesymau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>6.3 42C114A – Cais amlinellol ar gyfer codi annedd amaethyddol ynghyd â gosod tanc septig yn Tai'n Coed, Pentraeth<br><br>**Dywedwyd bod y cais wedi cael ei dynnu'n ôl a nodwyd y wybodaeth honno.**<br><br>6.4 44C294B – Cais llawn ar gyfer codi dau o dyrbinau gwynt 20kw hyd at 20.5m o uchder, rotor 13.1m ar draws a hyd at 27.1m i bwynt uchaf y llafn, ar dir yn Plas Newydd, Rhosybol<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a'r rhesymau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | 7.1 14C135A – Cais llawn ar gyfer codi annedd a garej breifat, creu mynedfa newydd i gerbydau ynghyd â gosod tanc trin carthion ar dir ger Glasfryn, Ty'n Lon.<br><br>**Penderfynwyd ymweld â'r safle am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>7.2 46C263M – Cais llawn ar gyfer lleoli 11 o gabanau coed i bwrpas gwyliau, adeiladu mynedfa |

| | |
|---|---|
| | newydd a gwaith tirlunio ym Maes Carafanau Ty'n Towyn, Lôn St.Ffraid, Trearddur.<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gydag amod A106 i reoli'r cynefin ar weddill y tir sydd ym mherchenogaeth yr ymgeisydd a hynny er budd ehangach y bywyd gwyllt yn yr ardal ac mewn modd sy'n mynd y tu draw i hynny a gynigiwyd yn safle'r cais ynghyd â'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig a chyda amod i rwystro cysylltu'r hen fynedfa gyda'r un newydd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | Nid oedd ceisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DAI FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | Nid oedd ceisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | Nid oedd ceisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | Nid oedd ceisiadau i'w hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | 12.1 19C1046C/LB – Cais am ganiatâd adeilad rhestredig ar gyfer dymchwel rhan o'r tŷ yn Soldiers Point, Caergybi. |

| | |
|---|---|
| | **Penderfynwyd ymweld â'r safle yn unol â chais a gafwyd gan un o'r Aelodau Lleol ac am y rheswm a roddwyd.**<br><br>12.2 19LPA992/CC – Cais llawn i osod ffenestri codi pren traddodiadol newydd yn lle'r ffenestri sydd ar lawr cyntaf ac ail lawr y drychiad blaen yn Dafydd Hardy, 9 Stryd Stanley, Caergybi.<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog a chyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>12.3 33C302 – Cais llawn i newid defnydd adeilad o fod yn annedd (C3) i fod yn rhannol yn siop gwerthu prydau poeth (A3) ac yn rhannol yn annedd (C3) ynghyd â chreu lle parcio ychwanegol yn Penffordd, Gaerwen<br><br>**Penderfynwyd ymweld â'r safle yn unol â chais a gafwyd gan un o'r Aelodau Lleol ac am y rheswm a roddwyd**.<br><br>12.4 34LPA993/AD/CC – Cais i godi 31 o arwyddion amrywiol ar draws Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog a chyda'r amodau a restrir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 GORCHMYNION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | 14.1 Cyngor Sir Ynys Môn – Cymeradwyaeth i Gyflwyno Gorchymyn Pryniant Gorfodol<br><br>**Penderfynwyd cyflwyno Gorchymyn Pryniant Gorfodol mewn perthynas â'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r adroddiad a rhoi pwerau i'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol weithredu'r Gorchymyn yn unol ag adran 3.4.3.9 Cyfansoddiad y Cyngor.** |

| | |
|---|---|
| | |